Rhif 43 **Yr Hen Wlad** Mai/Mehefin 2005

## At Gymry Patagonia

**Ofnaf i mi fethu ag anfon rhifyn Chwefror yn ôl y bwriad ond mae'n dda gennyf ddweud fod y gwaith y bu'n rhaid canolbwyntio arno yn dwyn ffrwyth a Chanolfan Hanes Uwchgwyrfai ar fin cael y caniatâd angenrheidiol i gychwyn ar yr adeiladau. Rhagor am hyn y tro nesaf.**

## Cystadleuaeth

**Ynglŷn â'r gystadleuaeth yn y rhifyn diwethaf, dyma'r enw cyntaf o'r het: Aira Hughes, Esquel.**
Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd am eich diddordeb a'ch cefnogaeth. Daliwch ati i gystadlu. Golygydd: Marian E. Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU ebost: marianelias@cymru1.net

## Y Cynllun Athrawon

Yn ôl y Gweinidog dros Ddiwylliant, Alun Pugh, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i ariannu'r cynllun i hybu'r iaith Gymraeg ym Mhatagonia. Derbynnir £105,000 yn ystod y tair blynedd nesaf i anfon athrawon o Gymru i Batagonia, yn ogystal â hyfforddi tiwtoriaid Cymraeg lleol. Rhyddhad mawr yw hyn ac ofnid y byddai'r cynllun arbennig hwn yn dod i ben. Yr athrawon presennol yw Esyllt Nest Roberts, yn Y Gaiman; Clare Whitehouse, yn Yr Andes, ac Angharad Rowe yn Nhrelew.

---

## Rhyddhau athrawon am dri mis i ddysgu Cymraeg

Ym mis Ionawr 2006 bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cychwyn cynllun i neilltuo £2 filiwn i alluogi athrawon i gael eu rhyddhau am gyfnod o 3 mis i loywi eu Cymraeg. Y rheswm paham y bydd angen yr holl arian yw y bydd yn rhaid talu i athrawon eraill barhau â'u gwaith yn eu habsenoldeb. Gobaith prifathrawon Cymru yw y bydd y cynllun hwn yn gymorth i gael gwella'r sefyllfa bresennol oherwydd prinder athrawon i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn arbennig athrawon mathemateg a gwyddoniaeth.

---

Ni ddaw ddoe yn ôl.
Hedyn pob drwg yw diogi.
Ychydig yn aml a wna lawer.
Deuparth gwaith, ei ddechrau.
Canmol dy fro, a thrig yno. *Diarhebion*

# Colli arwr cenedlaethol



Collwyd arweinydd gwleidyddol mwyaf Cymru pan fu farw Dr Gwynfor Evans ar Ebrill 19 yn 93 mlwydd oed.

Ymgyrchodd yn ddiflino dros Gymru a'r iaith Gymraeg ar hyd ei oes. Sefydlodd gangen o Blaid Cymru pan oedd yn fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yn 1945 daeth yn Llywydd y Blaid a dechreuodd ei ymgyrch yn erbyn boddi pentref Cwm Celyn – cynllun a fyddai'n darparu dŵr i ddinas Lerwpl.

Daeth ei awr fawr ym 1966 pan alwyd isetholiad yng Nghaerfyrddin. Yn gwbl annisgwyl, enillodd Gwynfor Evans fuddugoliaeth ysgubol ac ef oedd Aelod Seneddol cyntaf y Blaid yn San Steffan. Dangosodd canlyniad Caerfyrddin fod Plaid Cymru yn awr yn rym gwleidyddol pwysig. Flwyddyn yn ddiweddarach pasiwyd y Ddeddf Iaith gyntaf gan y llywodraeth Lafur ac er nad oedd iddi lawer o rym, bu'n gyfrwng i ganiatáu defnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd barn ac mewn gweinyddiaeth. Yn 1993 pasiwyd deddf arall a arweiniodd at greu Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

I Gwynfor Evans hefyd y mae'r clod am fodolaeth S4C sef Sianel Deledu Cymru. Pan oedd y Blaid Doriaidd mewn grym fe dorrodd y Prif Weinidog, Margaret Thatcher, ei gair ynglŷn â sefydlu S4C. O ganlyniad bygythiodd Gwynfor Evans newynu i farwolaeth yn 1980 a gorfu i'r Llywodraeth newid ei meddwl.

Yr oedd yn hanesydd ac ysgrifennodd nifer o lyfrau diddorol ac awdurdodol ar Hanes Cymru. Yr oedd hefyd yn heddychwr.

Darlledwyd ei wasanaeth angladdol yn Aberystwyth ar S4C a chafwyd cynrychiolaeth deilwng yno o bob rhan o Gymru, yn hen ac ifainc, cyffredin ac ysgolhaig a gwahanol bleidiau gwleidyddol.

## Hawliau i gerddwyr

Daeth Deddf newydd i rym ar Fai 21 sydd yn rhoi hawliau ychwanegol i gerddwyr.

Mae cyflwyno'r ddeddf wedi cymryd amser maith, a phedair blynedd i ail-lunio'r mapiau sy'n dangos ym mhle yn union y



mae'r llwybrau y gall pobl eu defnyddio. Hyd at Fai 21 dim ond tua 5% o dir Cymru oedd yn agored i'r cyhoedd ond bellach mae wedi cynyddu bron i 25%.

Mae ffigurau Bwrdd Croeso Cymru yn dangos bod cerddwyr yn dod â £500 miliwn i'r economi wledig bob blwyddyn a'r gobaith yw y byddant yn cyfyngu eu hunain i'r llwybrau yn unig. Ond pryder y ffermwyr yw y bydd pobl yn credu fod ganddynt hawl i fynd â'u cŵn am dro ar eu holl diroedd a difetha eu bywoliaeth.

## Adar Prin

Hyd at 2004 nid oedd yr aderyn Gwalch y Pysgod wedi ei weld yng Nghymru ond y llynedd gwelwyd dau bâr yn nythu yma, un ohonynt yn ardal Pren-teg ger Beddgelert. Ond bu farw eu cywion hwy pan chwythwyd y nyth i'r afon islaw.



Erbyn eleni yr oedd y Gymdeithas er Amddiffyn Adar wedi ail-greu'r nyth a hefyd wedi gosod camera gerllaw yn y gobaith y buasai'r adar yn dychwelyd.

Cyrhaeddodd y ceiliog ar 28 Mawrth, wythnos union o flaen yr iâr ac er ei fod yn amheus ohono y diwrnod cyntaf derbyniodd y ceiliog y nyth heb wybod fod camera yn ei wylio a bod cuddfan wedi ei chodi heb fod ymhell a sgrin deledu fawr ynddi yn darlledu lluniau o'r nyth. Mae cyfle i ymwelwyr weld y sgrin rhwng 10 o'r gloch y bore a 5 yr hwyr a bydd cyfle iddynt ddefnyddio sbienddrychau a thelesgopau i weld yr iâr yn gori a'r ceiliog yn dod â physgodyn mawr o'r afon iddi bob hyn a hyn. Bydd yr wyau (3 sydd yn y nyth) yn deor ar ôl 37 diwrnod a bydd y cywion yn y nyth am 50 arall o ddyddiau.

## Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Bu'n rhaid i Eisteddfod Genedlaethol Cymru wneud apêl am arian ar ddiwedd wythnos yr Eisteddfod yng Nghasnewydd y llynedd oherwydd y cynnydd aruthrol yn y costau.



Ofnid y byddai Eisteddfod eleni ym Mangor (ardal Eryri) hefyd yn wynebu colled anferth ond rhwng y cymhorthdal a gafwyd a'r ymdrech arbennig a wnaed i godi arian y gobaith yw na fydd hynny yn digwydd.

I geisio datrys y broblem yn y dyfodol anfonodd arweinydd Cyngor Sir y Fflint lythyr at bob Cyngor yng Nghymru yn gofyn iddynt gyfrannu tua £20,000 y flwyddyn fel na fydd rhaid i awdurdod lleol gyfrannu £300,000 i gynnal y brifwyl yn eu hardal.

Hyd yn hyn dim ond tri o awdurdodau lleol Cymru sydd wedi penderfynu cefnogi cynllun i roi £20,000 y flwyddyn i'r Eisteddfod Genedlaethol, sef Gwynedd, Powys a Sir y Fflint. Y perygl yw y bydd y cynllun hwn yn methu ac y bydd yn rhaid cwtogi'r Eisteddfod yn y dyfodol a'i chynnal mewn nifer cyfyngedig o leoedd.

## Cangen Ynys Môn a Bangor o Gymdeithas Cymru-Ariannin

Yng nghyfarfod nesaf y Gymdeithas uchod y siaradwyr fydd Gareth a Margaret Tilsley, sydd newydd symud i Fangor i fyw. Mae eu mab wedi priodi Miriam Jones o Gaiman ac yn byw yng Nghaerdydd. Cefndir y briodas a'r gwahaniaeth traddodiadau fydd eu testun a bydd ganddyn nhw luniau neu fideo.

## £63,000 am lecyn o dywod

Ym mis Mai gwerthwyd llecyn o dywod, sydd ddim mwy na 15 troedfedd o led, ar draeth Abersoch gyda chaniatâd i godi cwt yno, a



hynny am y swm o £63,000. Ni chaniateir ei gysylltu â thrydan na dŵr.

Fe'i prynwyd gan Sais o Sir Gaer sydd â thŷ haf yn Abersoch.

# Anrhydedd



Anrhydeddu Gwilym Griffith, am ei gyfraniad di-baid i'w gymuned, fydd un o ddigwyddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Eryri a'r Cyffiniau, eleni.

Er pan oedd yn ifanc iawn bu'n arwain nosweithiau llawen, yn arwain Clwb y Ffermwyr Ifainc, yn canu, yn adrodd, yn aelod selog o'r capel, yn hyfforddi pobl ifainc. Ond mae'n debyg mai â Chwmni Drama Llwyndyrus y cysylltir ef yn bennaf. Ef oedd un o'r rhai a sefydlodd y Cwmni hwn 40 mlynedd yn ôl, bu'n actio ynddo o'r dechrau ac yn gynhyrchydd am 30 mlynedd.

Pinacl ei yrfa oedd cael mynd â'r Cwmni i'r Wladfa yn 2004 i berfformio drama W.S. Jones (Wil Sam).

# Gŵyl y Mimosa

Trefnir Gŵyl y Mimosa yn Lerpwl ddydd Sadwrn, Hydref 22 2005.

Traddodir 2 ddarlith yn y bore, dadorchuddir Plac y Mimosa yn y prynhawn a fin nos ceir Cyngerdd ond y bydd hwnnw yn un dwyieithog.

Drannoeth, ddydd Sul, 23 Hydref, ceir oedfa a chymanfa.

# Canolfan yr Urdd

Mae Canolfan yr Urdd bellach yn rhan o adeilad Canolfan y Milflwyddiant yng Nghaerydd..



Mae lle i 153 o bobl a phlant aros yno. Ystafell wely sydd â lle i 6 yw hon. Mae ystafelloedd i 2 a 4 ar gael hefyd ac maent i gyd yn rhai *en suite.* Mae pencadlys Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru hefyd yng Nghanolfan y Milflwyddiant

# Canwr o fri yn Eisteddfod Llanuwchllyn



Enillodd Alejandro Jones, Trevelin, y wobr gyntaf ar yr unawd dan 30 oed ( yn erbyn 9) yn Eisteddfod Llanuwchllyn nos Sadwrn, Mai 28.

Mae Alejandro yn treulio hanner blwyddyn efo Aur Roberts yn Llanuwchllyn ac yma ers dau fis bellach. Erbyn hyn mae wedi dechrau ymlacio ar ôl ei brofiad hunllefus pan gyrhaeddodd faes awyr Heathrow. Yn y fan honno cafodd ei drin yn y modd mwyaf haerllug gan yr awdurdodau ac fe'i bwriwyd i gell fel terfysgwr yn ystod yr oriau hynny. Er bod y profiad hwn wedi digwydd i Luis Austin yn ddiweddar iawn nid oedd y swyddogion yn gwybod dim byd o gwbl am y cysylltiad agos rhwng Cymru a'r Wladfa, meddent hwy.

Ond bu Alexandro ac Aur yng Nghanolfan Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd, ar achlysur cyhoeddi llyfr Errgio Sepiurka a Jorge Miglioli a gyhoeddir gan Grupo Abierto Comunicaciones, Buenos Aires.

Yn y fan honno cafodd Alejandro ac Aur gyfle i egluro beth a ddigwyddodd a dweud eu barn wrth neb llai na Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru gan iddynt gael cinio efo fo a brecwast efo Alun Pugh, Gweinidog Diwylliant.

# Archgyfrifiadur

Mae cynlluniau ar y gweill i greu un o gyfrifiaduron mwyaf pwerus y byd ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae disgwyl i'r cyfrifiadur wneud gwaith (sydd ar hyn o bryd yn cymryd oriau lawer, ac weithiau ddyddiau), mewn ychydig o eiliadau. Y bwriad yw ei ddefnyddio mewn ymchwil gwyddoniaeth bywydegol, gan gynnwys sut i atal afiechydon.

Mae'r Cynulliad a'r Cwmni IBM am fuddsoddi £50 miliwn yn y fenter, gan gynnwys arian Amcan Un o Ewrop.

Y gobaith yw y caiff 240 o swyddi eu creu yn y maes ymchwil gwyddonol o ganlyniad i'r cynllun. Disgwylir i'r cyfrifiadur fod wrth ei waith o fewn dwy flynedd.

## Etholiad Cyffredinol

O ganlyniad i'r Etholiad Cyffredinol ym mis Mai mae Tony Blair yn parhau yn ei swydd fel Prif Weinidog Prydain ac arweinydd y Blaid Lafur ond bod mwyafrif y blaid honno wedi ei haneru. Eu rhan yn Rhyfel Irac, cynnydd mewn troseddau a chynnydd yn y taliadau a ddisgwylir gan fyfyrwyr a'r dirywiad mawr yn economi cefn gwlad yw rhai o'r ystyriaethau oedd gan yr etholwyr yn eu herbyn.

Mae 40 o Aelodau Seneddol yn cynrychioli etholaethau Cymru yn San Steffan (yn Llundain): 29 Llafur; 4 Democratiaid Rhyddfrydol; 3 Ceidwadwyr; 3 Plaid Cymru; 1 Ymgeisydd Annibynnol. Collwyd sedd fwyaf diogel y Blaid Lafur yng Nghymru oherwydd penderfyniad y Blaid Lafur i gyfyngu'r ymgeiswyr am y sedd i ferched yn unig yn hytrach nag i'r ymgeisydd gorau, boed yn ddyn neu ferch.

## Cau Ysgolion cynradd Cymraeg

Rhybuddiwyd y gallai hyd at 200 o ysgolion Cymraeg gau o fewn pum mlynedd.

Dadlennwyd ar raglen radio yn ddiweddar fod 403 o ysgolion cynradd Cymru â 25% neu ragor o leoedd gwag oherwydd, yn bennaf, fod llai o blant yn cael eu geni nag yn y gorffennol ac oherwydd diboblogi cefn gwlad.

Mae rhai siroedd eisoes wedi mynegi eu bwriad i gau rhagor o ysgolion gwledig ac uno rhai eraill a phryder mawr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yw y byddai'n rhaid i ysgolion Cymraeg uno â'r ysgolion Saesneg mewn rhai achosion.

Trefnwyd protest gan y Gymdeithas ar faes Eisteddfod yr Urdd i dynnu sylw at y sefyllfa. Eu gobaith oedd cael trafod y mater efo Llywodraeth Cynulliad Cymru ond gwrthodwyd eu cais.

## Y drefn afiach o Ewrop

Mae ffermwyr ar hyd a lled Cymru yn feirniadol iawn o'r modd y mae deddfau hylendid Ewropeaidd yn lledaenu yn hytrach na rheoli afiechyd.

Y drefn ar hyd y canrifoedd pan fyddai anifail yn marw ar fferm oedd y byddai'r ffarmwr yn ei gladdu yn ddi-oed. Ond yn awr mae rheolau Ewrop yn gorfodi pob ffarmwr nid yn unig i gael gwared â chyrff anifeiliaid oddi ar eu tir ond hefyd i dalu £30 i gludo pob un ymaith i losgydd filltiroedd i ffwrdd.

Y ffarmwr diweddaraf i gwyno am y sefyllfa yw Alun Williams o Gwm Pennant ger Porthmadog.

"Pan fu un o'r gwartheg farw yn ddiweddar," meddai, "rhoddais wybod i'r awdurdodau er mwyn cludo'r corff oddi yma, ond rhaid oedd aros am 6 diwrnod."

"Pan ddaeth y lori roedd wedi tywyllu. Drannoeth mi welsom fod yna sug afiach ar hyd y ffordd wedi dod o'r lori. Wrth geisio rheoli afiechyd mae'r awdurdodau yn lledaenu afiechydon."

Sylw Hywel Williams, Aelod Seneddol Plaid Cymru dros etholaeth Caernarfon, oedd:

"Mae'n amlwg fod rheolau Ewrop yn hollol anymarferol. Mae'n ddychryn meddwl y problemau iechyd fydd hyn yn ei greu yng ngwres yr haf."

## Reg Keys




Er pan gollwyd milwr 20 oed yn Irac bu'r tad yn ymgyrchu yn ddi-ildio yn erbyn y Llywodraeth.

Bu farw Tom Keys, 20 oed, a phump aelod arall o'r heddlu milwrol, mewn ymosodiad yn Irac ym Mehefin 2003 a hwythau heb eu harfogi'n ddigonol.

Aeth ei dad, Reg Keys, yn awr o Lanuwchllyn, ati i herio Tony Blair, y Prifweinidog, yn yr etholiad cyffredinol. Aelod Seneddol Sedgefield yn Lloegr yw Tony Blair, ac i'r etholaeth honno yr aeth Mr Keys i'w herio fel ymgeisydd Seneddol yn ei erbyn.

Tony Blair a enillodd ond gyda llai o fwyafrif nag arfer. Daeth Mr Keys yn bedwerydd gyda 4,252 pleidlais ac yn ei araith pan gyhoeddwyd y canlyniad fe alwodd ar Mr Blair i ymddiheuro i deuluoedd y milwyr a gafodd eu lladd. Cyhoeddodd yn ei araith fod 88 o filwyr wedi eu lladd yn Irac heb sôn am y rhai a anafwyd, a bod 100,000 o bobl Irac wedi eu lladd.

# Eisteddfod yr Urdd





Canolfan Milflwyddiant Cymru ym Mae Caerdydd yw lleoliad Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru eleni yn hytrach na'r pafiliwn a'r pebyll a'r stondinau traddodiadol mewn caeau anferth.

Codwyd pont beili ddur dros dro fel y gall ymwelwyr groesi o'r meysydd parcio, dros fflodiart y morglawdd i faes yr Eisteddfod.

Disgwylir i dros 15,000 o gystadleuwyr ifainc berfformio yno a 100,000 o ymwelwyr. Bydd y rhagbrofion yn cael eu cynnal bob bore yn un o'r adeiladau mawr gerllaw sydd â 12 sinema yno, rhai at wasanaeth yr Eisteddfod.

Disgwylir i'r Eisteddfod ddychwelyd i Fae Caerdydd bob pedair blynedd.



Mae 1,900 o seddau yn Theatr Donald Gordon

# Pennaeth newydd S4C




Mae Iona Jones wedi ei phenodi i olynu Huw Jones yn bennaeth newydd S4C. Mae'n 41 oed a dechreuodd ei gyrfa ym myd darlledu fel newyddiadurwr cyn dod yn olygydd ac wedyn fel cynrychiolydd gwahanol gwmniau teledu Prydeinig mewn cysylltiad â'r Ddeddf Ddarlledu a materion strategol eraill. Hi yw Pennaeth Rhaglenni presennol S4C. Mae hi'n briod ac yn fam i dri o blant.

---

Enw da yw'r trysor gorau
Chwynnwch eich gardd eich hun yn gyntaf. *Diarhebion*

# Arbenigwyr




*O'r chwith: William Parry, Orthodontydd Ymgynghorol; Dr Allen Winter (efo pecynnau Maté) a Dr Helen Hughes, Ymgynghorydd Geneteg.*

*Llun: Yr Hen Wlad*

Mae Dr Allen Winter, Esquel, yn arbenigwr ar afiechydon plant yn Ysbyty Gwynedd ac yn awyddus i weld gwireddu cynllun meddygol a fydd o fantais i'r Wladfa.

Y maes sydd ganddo ef a'i gydweithwyr yn Ysbyty Gwynedd mewn golwg yw'r cyflwr a elwir yn daflod hollt mewn plant - sef pan na fydd taflod y geg wedi datblygu'n iawn. Llwyddwyd i oresgyn y broblem hon yn y rhan hon o'r byd. Mae William Parry yn ymgynghorydd deintyddol a Dr Helen Hughes yn arbenigo ar afiechydon sydd wedi eu hetifeddu.

Trefnwyd swper yn Restaurant Patagonia, Penmaenmawr, yn ddiweddar i egluro'r cyflwr hwn i rai o gyfeillion Y Wladfa a mynegodd Dr Winter y gobaith y gellir sefydlu cynllun o'r fath.



*John Humphreys, Perchennog Restaurant Patagonia, a Dr Allen Winter.*

---

Baich yw y byd heb iechyd
Er ei gael yn aur i gyd.

# Yng Nghlust y Teleffôn

**Eisteddfod Ysgol Camwy**

Llongyfarchiadau ar lwyddiant Micro Eisteddfod Ysgol Camwy a drefnwyd yn yr Hen Gapel (Bethel), Gaiman gan bwyllgor o ddisgyblion. Deallwn mai Angharad Rowe oedd y beirniad adrodd yn Gymraeg ac i gynifer ag 11 gystadlu mewn un gystadleuaeth ac mai Mary Zampini a Karina Crespo (cyn ddisgybl Llambed) oedd yn beirniadu'r canu.Roedd yna ddawnsio gwerin hefyd.

**Llongyfarchiadau i**

Karen Judith Roberts, Dolafon, am ennill Ysgoloriaeth Coleg Llanymddyfri i ddisgybl chweched dosbarth o Batagonia. Clywsom y bydd yn parhau i gynnal y safon uchel a osodwyd enillwyr blaenorol yr ysgoloriaeth flynyddol hon sef Gustavo Zampini, Carol Davies Sala a Santiago Zampini.

**Diolchgarwch**

Clywsom am y cyrddau diolchgarwch canlynol:

Bethel, Gaiman, Sadwrn, Ebrill 2, y cwrdd prynhawn wedi ei baratoi gan yr Ysgol Sul a'r plant a'r bobl ifainc yn cymryd rhan, ac oedfa'r hwyr dan ofal Côr Merched y Garth, Caerdydd.

Tabernacl, Trelew, Sul, Ebrill 3 oedfa am 6 ac i ddilyn cyngerdd yn y MEF.

Hen Gapel y Gaiman – cyngerdd a chroeso i ddilyn yn yr Ysgol Gerdd dan nawdd Cyngor y Gaiman a'r Ysgol ei hun.

# Croesawu Côr Porth Madryn

Trefnwyd dau gyngerdd gan Gôr Porth Madryn yn ystod eu hymweliad â Chymru, sef yng Nghaernarfon ar Fehefin 14 ac yn Nefyn ar Fehefin 15. Newydd gael ei hagor y mae'r neuadd y perfformir ynddi yng Nghaernarfon, felly bydd eu cyngerdd hwy yn atyniad pwysig. Bydd Asado ar eu cyfer ym Mhen-y-bryn, Penmachno ar Fehefin 25, yr elw tuag at Ysgol Gymraeg Trelew.

Edrychir ymlaen yn fawr at eu gweld.

# Y Testament Newydd ar CD

Menter newydd gan Gymdeithas y Beibl eleni yw recordio'r Testament Newydd ar gasetiau a chryno-ddisgiau gan ddefnyddio actorion adnabyddus.

Bydd y pecynnau hyn yn cael eu cyhoeddi yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Pris y pecynnau yw: CD: £49.95, caset: £39.95. Cynigir gostyngiad os archebir cyn 24 Mehefin. Mae angen gyrru'r archeb i Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth. SY23 1DL

# Yr Herald Cymraeg

Cyhoeddwyd Yr Herald Cymraeg wythnosol am y tro olaf ym mis Chwefror eleni ac yntau ar fin dathlu ei 150 oed, a hynny oherwydd diffyg cefnogaeth. Parheir i gyhoeddi rhyw bedair tudalen ohono bob dydd Mercher fel atodiad i'r papur Saesneg Daily Post. Bydd bwlch mawr ar ei ôl.

# Sgrîn Fawr

**Bydd sgrîn fawr yn darlledu 24-awr y diwrnod yn cael ei chodi yng nghanol Wrecsam os caiff sêl bendith cynllunwyr lleol.**



Mewn menter ar y cyd, mae BBC Cymru, Cyngor Wrecsam a Philips yn cynnig ei chodi yn Sgwâr y Frenhines yng nghanol y dref.

Mae sgriniau tebyg eisoes wedi eu codi ym Manceinion, Lerpwl, Birmingham a Hull, ac wedi cael croeso mawr gan bobl leol.

Bydd y sgrîn, sy'n mesur 8x4m, yn darlledu newyddion am ddigwyddiadau lleol a gwasanaethau'r cyngor, chwaraeon a chyngherddau ayb.

BBC Cymru fydd yn rhedeg y sgrîn o'u canolfan yn Wrecsam a bydd un swydd yn cael ei chreu o ganlyniad.

# ???

Chwiliwch am yr atebion cywir yn y papur hwn. Os anfonwch at y Golygydd erbyn Awst 1 2005 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r ymgais gywir gyntaf a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad.*

1. Pwy fydd yn canu ar y bryn?
2. Pwy sy'n ganwr ardderchog?
3. Pwy wnaeth gamp anhygoel 39 mlynedd yn ôl?
4. Ym mhle y gosodir y plac?
5. Mae'n byw yng Nghwm Pennant.
6. Pa blaid sydd yn y mwyafrif yn Senedd Prydain?
7. Ym mhle y bydd Eisteddfod 2005?
8. Enwch un o Aelodau Seneddol Cymru yn Senedd Prydain.
9. Beth yw enw pencadlys y Senedd yn Llundain?
10. Faint o seddau sydd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn y pencadlys yn rhif 9?
11. Beth mae'r meddyg yn mynd i'w yfed?
12. *Beth ddaeth i ben ym mis Chwefror?*